Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff Polisi
Medi 2022

# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol

## Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Yn rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi ac yn cyfosod canfyddiadau'r deuddeg adolygiad polisi.

## Cyflwyniad

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn difetha bywydau pawb y maent yn effeithio arnynt. Mae tlodi'n cael effaith negyddol ar amrywiaeth o ganlyniadau, ac mae iddo oblygiadau cymdeithasol a goblygiadau sy'n mynd o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae yna sawl sbardun i dlodi ac allgáu cymdeithasol, ac felly nid oes un polisi yn ddigonol i'w lleihau. Yr hyn sy'n ofynnol yw strategaeth sy'n cynnwys ystod o bolisïau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â natur amlddimesiynol tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mantais strategaeth yw y gellir elwa o synergeddau rhwng y polisïau wrth ddewis cymysgedd polisi, a gall yr effeithiolrwydd cyffredinol fod yn fwy na chyfanswm ei rhannau.

## Meysydd polisi

Mae adolygiad llawn o'r dystiolaeth (a grynhoir yn y papur briffio hwn) yn cwmpasu deuddeg maes polisi allweddol. Cafodd y detholiad ei lywio gan strwythur damcaniaethol Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM), ymgyngoriadau gydag arbenigwyr ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Ni ddylid ystyried y deuddeg maes polisi yn set gynhwysfawr o bolisïau y mae'n ofynnol eu cael i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae'r deuddeg maes fel a ganlyn:

1. Ansicrwydd bwyd
2. Defnydd o drosglwyddiadau arian parod
3. Dyled aelwydydd
4. Cyflenwad tai fforddiadwy
5. Tlodi tanwydd
6. Allgáu digidol
7. Anfantais o ran trafnidiaeth
8. Gwasanaethau ieuenctid
9. Camu ymlaen yn y gwaith
10. Addysg a gofal plentyndod cynnar
11. Addysg bellach a sgiliau
12. Amgylchedd y gymdogaeth

Manylir isod ar bedwar prif ganfyddiad trawsbynciol o'r deuddeg adolygiad.

## Cydgysylltiadau rhwng meysydd polisi

Mae gan sawl maes polisi gysylltiad sylfaenol (e.e. dyled aelwydydd; tlodi tanwydd; ansicrwydd bwyd; anfantais o ran trafnidiaeth; cyflenwad tai fforddiadwy), a bydd angen strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag 'ysgogwyr ymhellach i fyny'r gadwyn', megis incwm isel. Y tu hwnt i ymyriadau penodol mewn maes polisi neilltuol (gwasanaethau cyngor ar ddyledion a rhyddhad dyledion, dyweder, neu lythrennedd ariannol mewn perthynas â dyled aelwydydd, neu ddarpariaeth gymunedol mewn perthynas ag ansicrwydd bwyd), er enghraifft, mae hyn yn golygu bod strategaethau ehangach i gynyddu a mwyhau incwm gwario aelwydydd, sydd ar gael i deuluoedd difreintiedig, yn angenrheidiol er mwyn gwneud cynnydd ym mhob maes.

Dylid asesu cydgysylltiadau a synergeddau rhwng yr offerynnau polisi sydd ar gael ym mhob maes polisi. Gellir dod o hyd i'r math o feddwl cynhwysfawr, amlsectoraidd sy'n ofynnol i wneud hyn yn strategaeth 'Tlodi plant: cynllun gweithredu pwyslais ar incwm' Llywodraeth Cymru, er enghraifft. Mae'r posibilrwydd o sefydlu 'System Budd-daliadau Cymru', yn unol â'r hyn a gynigiwyd gan Sefydliad Bevan, yn enghraifft arall a allai helpu i fynd i'r afael â heriau cydgysylltiedig.

Mae gwasanaethau 'un stop' amlasiantaethol yn y gymuned, sy'n hybu'r broses o gydgysylltu gwasanaethau ac yn darparu cymorth amrywiol, yn ddefnyddiol yn wyneb yr ystod o anghenion a gwendidau cydgysylltiedig y gall pobl eu profi. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhain ar eu mwyaf effeithiol pan nad ydynt yn creu stigma, a phan maent yn ysgogi perthnasoedd dibynadwy yn y gymuned sy'n helpu i ehangu eu cyrhaeddiad.

Ar draws meysydd polisi, mae'n amlwg mai her sy'n codi dro ar ôl tro yw rôl leihaol system nawdd cymdeithasol y DU o ran bod yn rhwyd ddiogelwch effeithiol rhag tlodi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau gofynnol i newid elfennau allweddol o'r system (e.e. mewn perthynas â chynllunio Credyd Cynhwysol neu'r trothwy dau blentyn), ond gall cydnabod eu diffygion arwain at welliannau yn y cymorth a'r gefnogaeth y gellir eu darparu trwy offerynnau polisi amgen.

## Bylchau tystiolaeth

Ceir bylchau tystiolaeth mewn sawl maes polisi, ynghyd â thuedd i lunio gwerthusiadau gwan, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau lleol.

Pan all yr ymyriadau hyn wasanaethu ystod o ddibenion y tu hwnt i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, mae'n arbennig o bwysig bod gwerthusiadau'n mynd y tu hwnt gwneud mwy nag asesu allbynnau (e.e. nifer yr atgyfeiriadau, llwyth achosion, ac ati), a'u bod yn canolbwyntio mewn modd effeithiol ar yr effaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddi'r modd y gallai hyn effeithio ar grwpiau difreintiedig gwahanol (e.e. pobl ag anableddau, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, rhieni sengl, pobl sy'n gadael gofal). Mewn rhai meysydd, efallai y byddai'n fwy priodol amcangyfrif gwerthoedd cymdeithasol yn hytrach nag asesiadau effaith meintiol (e.e. yn achos trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau ieuenctid mynediad agored).

## Cyfleoedd i rannu data

Ar draws nifer o feysydd, gall cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer rhannu data gyfrannu at waith amlasiantaethol, hybu synergeddau, symleiddio prosesau gweinyddol a sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen a'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Ar yr un pryd, mae angen dirnadaeth o brofiadau byw hawlwyr a defnyddwyr y gwasanaethau i ddeall y rhwystrau i fynediad y mae grwpiau gwahanol yn eu hwynebu (ac felly'r ystod o opsiynau a dewisiadau amgen sy'n ofynnol i sicrhau cynhwysiant).

## Dulliau cyfranogol

Mewn nifer o feysydd polisi (e.e. allgáu digidol, gwasanaethau ieuenctid, amgylchedd y

gymdogaeth), mae dulliau cyfranogol yn dod i'r amlwg fel modd i wella llwyddiant ymyriadau a rhaglenni o ran diwallu anghenion pobl a mynd i'r afael â heriau ar lawr gwlad. Mae sicrhau cyfranogiad dilys ac ystyrlon yn golygu cefnogi cyfranogiad a fydd yn cael dylanwad gwirioneddol, yn hytrach na’i fod yn bresenoldeb goddefol neu’n symboleiddiaeth yn unig. Mae hefyd yn golygu cydnabod bod dinasyddion tlawd a difreintiedig yn fwy tebygol o brofi rhwystrau i gyfranogiad, felly bydd angen i strategaethau ymgysylltu effeithiol ystyried cyfansoddiad a dynameg y gymuned. Gall dim ond 'agor' mannau trafod arwain at orgynrychiolaeth ymhlith lleisiau sydd eisoes yn ddylanwadol, gan fethu creu cyfranogiad sy’n wirioneddol gynhwysol.

## Casgliad

Mae tystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd y deuddeg maes polisi hyn yn dangos y gallent fod yn elfennau pwysig o strategaeth wrth-dlodi ac allgáu cymdeithasol lwyddiannus i Gymru. Nid yw'n ddetholiad cynhwysfawr o bolisïau, a dylid ystyried rhai eraill, megis: polisïau sy'n mynd i'r afael ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd gwael; mynediad at ofal cymdeithasol fforddiadwy; lleihau troseddu; cyfiawnder troseddol ac adsefydlu effeithiol; lleihau digartrefedd; a gwella ansawdd swyddi, yn enwedig ym mhen isaf y farchnad lafur.

At hynny, mae yna gysylltiad cynhenid rhwng anghydraddoldeb a thlodi, ac mae lefelau uchel o anghydraddoldeb yn gwneud y gwaith o fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn fwy heriol. Felly, mae angen i unrhyw strategaeth gadw hyn mewn cof.

## Rhagor o wybodaeth

I gael yr adroddiad llawn gweler Bucelli, I., a McKnight, A. (2022). ***Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol: trosolwg o’r tystiolaeth ryngwladol.*** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynghylch Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy’n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae’r Ganolfan, sy’n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dan Bristow**

+44 (0)29 2087 5345 -

dan.bristow@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government